# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**2018 dccc 2**

**RHAN 2**

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

**PENNOD 5**

CYFFREDINOL

*Galluedd*

**84 Galluedd plant**

(1) Mae is-adrannau (2) i (7) yn gymwys—

(a) i'r ddyletswydd i hysbysu plentyn neu i roi gwybod i blentyn o dan adran 11(4), 13(3), 18(3), 22(2), 23(10), 24(9), 27(4), 28(4), 28(7), 31(7), 31(8), 31(9), 32(3), 40(4) neu 42(6);

(b) i'r ddyletswydd i roi copi o gynllun neu gynllun diwygiedig i blentyn o dan adran 22(1), 23(11), 24(10) neu 40(5);

(c) i'r amodau ym mharagraffau (a) a (b) o adran 20(3) fel y bônt yn gymwys i blentyn;

(d) i'r ddyletswydd i adolygu cynllun yn dilyn cais gan blentyn o dan adran 23(8) neu 24(7);

(e) i'r ddyletswydd i ailystyried yn dilyn cais gan blentyn o dan adran 26(1), 27(1) neu 32(1)(b);

(f) i'r ddyletswydd i benderfynu yn dilyn cais gan blentyn o dan adran 28(1).

(2) Nid yw'r amod neu'r ddyletswydd yn gymwys os yw'r corff llywodraethu, yr awdurdod lleol neu'r corff GIG (yn ôl y digwydd) yn ystyried nad oes gan y plentyn y galluedd i ddeall y mater o dan sylw, oni bai bod is-adran (3) yn gymwys.

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(3) Mae'r is-adran hon yn gymwys os—

(a) yn achos penderfyniad gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir, yw'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn yn rhoi gwybod i'r corff llywodraethu ei fod yn ystyried bod gan y plentyn y galluedd i ddeall y mater o dan sylw,

(b) oes cyfaill achos wedi ei benodi ar gyfer y plentyn o dan adran 85 drwy orchymyn gan Dribiwnlys Addysg Cymru, yn ddarostyngedig i ddarpariaeth yn neu o dan yr adran honno, neu

(c) oes datganiad wedi ei wneud gan Dribiwnlys Addysg Cymru o dan adran 71(2) fod gan y plentyn y galluedd i ddeall y mater o dan sylw.

(4) Nid yw'r amod neu'r ddyletswydd yn gymwys i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir os yw'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn yn rhoi gwybod i'r corff llywodraethu fod yr awdurdod yn ystyried nad oes gan y plentyn y galluedd i ddeall y mater o dan sylw.

(5) Mae is-adran (6) yn gymwys pan—

(a) bo corff llywodraethu ysgol a gynhelir yn ystyried bod naill ai gan blentyn y galluedd neu nad oes ganddo'r galluedd i ddeall mater sy'n ymwneud ag arfer swyddogaeth y mae'r adran hon yn gymwys iddi, a

(b) bo'r plentyn neu riant y plentyn yn gofyn i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn ailystyried hynny.

(6) Rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y plentyn y galluedd i ddeall y mater o dan sylw.

(7) Nid yw'r amod neu'r ddyletswydd yn gymwys os yw Tribiwnlys Addysg Cymru yn datgan o dan adran 71(2) nad oes gan y plentyn y galluedd i ddeall.

(8) Yn yr adran hon ystyr "y galluedd i ddeall y mater" yw'r galluedd i ddeall—

(a) gwybodaeth y mae rhaid ei rhoi neu ddogfennau y mae rhaid eu rhoi i blentyn o dan y Rhan hon, neu

(b) yr hyn y mae arfer yr hawliau a roddir i blentyn gan y Rhan hon yn ei olygu.